
# Darlun o ddiabetes yng Nghymru

View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg

27/04/17

Ar hyn o bryd, mae tua 190,000 o bobl yng Nghymru yn cael eu trin ar gyfer diabetes (tua 6% o'r boblogaeth gyfan a dros 7% o'r boblogaeth sy'n oedolion).




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Arolwg Iechyd Cymru 2014 a 2015

© Hawlfraint a hawl cronfa ddata y Goron 2017.
Cedwir pob hawl. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100047295.

Amcangyfrifir bod ar 70,000 o bobl ychwanegol yng Nghymru ddiabetes math 2, ond eu bod yn anymwybodol o'r ffaith neu heb gael diagnosis. Mae 540,000 arall mewn perygl mawr o ddatblygu'r cyflwr.

Yn ôl y tueddiadau presennol, mae'n bosibl y bydd diabetes ar 300,000 o bobl yng Nghymru erbyn 2025.

Cyflwr awto-imiwn yw diabetes math 1 sy'n golygu nad yw'r pancreas yn cynhyrchu inswlin. Fel arfer, plant ac oedolion ifanc sy'n cael diagnosis o ddiabetes math 1. Mae tua 1,500 o blant â diabetes math 1 yng Nghymru.

Mae diabetes math 2 yn llawer mwy cyffredin na math 1, gan mai math 2 sydd ar tua 90% o'r oedolion sydd â diabetes. Cysylltir math 2 yn aml â ffactorau ffordd o fyw. Gordewdra yw'r ffactor risg mwyaf arwyddocaol, gan y gallai fod yn 80-85% o'r risg o ddatblygu diabetes math 2.

Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd â lefelau uwch o ordewdra, anweithgarwch corfforol, ysmygu a ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â risg pobl o gael diabetes math 2, ac â'u gallu i reoli'r cyflwr ac osgoi cymhlethdodau difrifol.

Mae tystiolaeth gynyddol – a phryder – bod y cynnydd yn nifer y plant sy'n ordew wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o ddiabetes math 2 sy'n cael diagnosis yn y grwpiau oedran iau. Nid oes ffigurau sy'n dangos faint yn union o blant a phobl ifanc sydd â diabetes math 2, ond mae data o'r Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol yn awgrymu bod y cyflwr yn debygol o fod yn fwy cyffredin ymhlith merched, ymhlith pobl ifanc o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig, ac ymhlith y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Pobl sydd â diabetes sy'n defnyddio 19% o welyau mewn ysbytai acíwt yng Nghymru. Diabetes math 2 sydd ar dros 90% o'r cleifion hyn.

Mae diabetes yn costio GIG Cymru tua £500 miliwn bob blwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i tua 10% o gyllideb y GIG yng Nghymru. Mae'r gyfran fwyaf – tua 80% – yn cael ei wario ar reoli cymhlethdodau diabetes (gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, methiant yr arennau, niwed i'r nerfau, strôc, colli aelod o'r corff, a dallineb). Mae llawer o'r cymhlethdodau hyn yn rhai ataliadwy.

Rhagor o wybodaeth:

– Llywodraeth Cymru, Cynllun Cyflenwi Cymru ar gyfer Diabetes 2016-2020

– Diabetes UK, Ffeithiau ac Ystadegau, mis Hydref 2016 (PDF, 560KB) (Saesneg yn unig)

– Diabetes UK, adroddiad ar gyfer Cymru – Cyflwr y Genedl – Heriau yn 2015 a thu hwnt **(Saesneg yn unig)**

– OECD, Iechyd ar Gipolwg: Ewrop 2016 – nifer yr achosion o ddiabetes **(Saesneg yn unig)**

– Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP)/GIG Digidol, National Diabetes Inpatient Audit (NaDIA) 2016 **(Saesneg yn unig)**

– HQIP/Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol 2015-16 **(Saesneg yn unig)**

– Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc

– Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Pedwerydd Cynulliad), Ymchwiliad i weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes yng Nghymru a'i gyfeiriad yn y dyfodol, 2013

---

Erthygl gan Philippa Watkins, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.